



Treftadaeth yng Nghymru 2018–19

Effeithiau a chyflawniadau'r sector treftadaeth

**Chwareli llechi hanesyddol a modern Bethesda:
ymgeisydd ar gyfer dod yn Safle Treftadaeth Byd.**

Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan y cyrff a ariennir gan y llywodraeth a'r sefydliadau elusennol, gwirfoddol a sector preifat sy'n aelodau o Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Cymru (GAH/HEG). Cydweithiwn i gynnal a gwella'r adeiladau, tirweddau a henebion hanesyddol gwerthfawr ac unigryw sy'n allweddol ar gyfer deall hanes a diwylliant Cymru ac sy'n ysbrydoli ac yn siapio ein hymdeimlad o genedligrwydd. Wrth wneud hynny, mae'r sector treftadaeth yn cynnal miloedd o swyddi ac yn denu incwm sylweddol drwy dwristiaeth, mae ein gwaith adfywio yn helpu i ddatblygu cymunedau cadarn, ac mae ein gweithgarwch ymgysylltu cymunedol yn hybu dysgu ac yn cyfrannu at iechyd a lles y genedl.

Ystadegau allweddol ar gyfer 2018–19

Mae'r sector amgylchedd hanesyddol, twristiaeth treftadaeth ac adeiladu treftadaeth gyda'i gilydd yn cefnogi

40,000 swydd

bron 3 y cant o bawb a gyflogir yng Nghymru.

Mae tai hanesyddol, gerddi, cestyll, abatai, henebion ac amgueddfeydd yn gwneud cyfraniad mawr i economi twristiaeth Cymru. Denodd yr 20 safle mwyaf poblogaidd fwy na

2m ymwelydd

y llynedd.

ac ymwelodd

5m

o bobl eraill ag amgueddfa ddi-dâl a

3.3m

â thŷ neu ardd hanesyddol.

Rydym yn rym cryf ar gyfer dysgu yng Nghymru. Croesawodd Cadw fwy na

68,500

o ddisgyblion ysgol y llynedd (cynnydd o 14 y cant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf) a darparodd Amgueddfa Cymru weithgareddau dysgu ar gyfer

208,388 o ymwelwyr o ysgolion.

Mae gan gyrff treftadaeth cenedlaethol Cymru

437,000

o aelodau sy'n talu, ac mae 102,000 o bobl yn aelodau o 700 o gymdeithasau treftadaeth lleol yng Nghymru.

Mae mwy na

40,000

o bobl neu sefydliadau'n berchen ar adeiladau, henebion neu dirweddau hanesyddol, yn byw ynddynt neu'n gofalu amdanynt.

Darganfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017–18 fod

75 y cant

o bobl yng Nghymru wedi mynychu neu wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.¹

Cymerodd mwy na

218,000

o bobl ran mewn gwyliau diwylliannol a threftadaeth y llynedd, gan gynnwys Drysau Agored (mis Medi) a'r Eisteddfod Genedlaethol, gŵyl flynyddol Cymru sy'n dathlu diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth.

Beth yw'r amgylchedd hanesyddol?

Mae'r term "amgylchedd hanesyddol" yn disgrifio canlyniadau rhyngweithiad dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefweddau a thirweddau sy'n werthfawr i ni fel cymuned ac rydym yn awyddus i'w diogelu. Defnyddiwn wahanol ddosbarthiadau dynodi i restru'r asedau treftadaeth pwysicaf sydd, yng Nghymru, yn cynnwys:




30,015

adeilad rhestredig




4,198

heneb gofrestredig



6

llongddrylliad hanesyddol




513

ardal gadwraeth



394

gardd a pharc cofrestredig



58

tirwedd hanesyddol cofrestredig

- Mwy na 200,000 o asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi a gofnodwyd yn y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth iddynt bellach o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Mae gennym hefyd dri Safle Treftadaeth Byd – dyma'r dosbarthiad dynodi uchaf, a gedwir ar gyfer safleoedd o werth eithriadol ar raddfa fyd-eang:

- Cestyll a Muriau Tref Edward I yng Ngwynedd
- Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon
- Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

Mae pedwerydd ymgeisydd, Diwydiant Llechi Gogledd Cymru, ar Restr Betrus y DU o Enwebiadau at y Dyfodol, a bydd cyflwyniad llawn yn cael ei wneud i UNESCO yn hydref 2019.

Melin lechi Ynys y Pandy, a elwir yn 'eglwys gadeiriol diwydiant llechi Cymru', ger Dolbenmaen, Gwynedd.



Pwy ydym ni?

Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAU) yn cynnwys pedwar sefydliad sy'n gweithio i gynnal a hybu amgylchedd hanesyddol Cymru. Bydd ein haelodau'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau amgylchedd hanesyddol i bobl ar hyd a lled Cymru, o gyngor cynllunio i adfywio trefweddau, ac o gynnal rhannau helaeth o arfordir ac ucheldiroedd Cymru i agor cestyll, gerddi a thai hanesyddol gorau Cymru i'r cyhoedd.

Daw aelodau GAU o'r sectorau cyhoeddus, preifat, elusennol a gwirfoddol (gweler Atodiad A am restr lawn o'r aelodau). Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol mewn ffyrdd cynaliadwy, gan hybu'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd dysgu a hyfforddi, meithrin dealltwriaeth a gwybodaeth, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac annog cymunedau i gyfranogi.

Mae'r sefydliadau yng Nghymru sy'n gyfrifol am reoli asedau hanesyddol yn cynnwys:

- Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (Cadw), sy'n gofalu am 130 o adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd ar agor i'r cyhoedd ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar bolisi treftadaeth ar gyfer Cymru, ac sy'n gyfrifol am ddiogelu asedau treftadaeth dynodedig drwy'r drefn gynllunio.
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru sy'n gofalu am 157 milltir o arfordir, 50,000 hectar o dir ac asedau bywyd gwyllt, ac 21 o gestyll, tai, parciau a gerddi mwyaf godidog Cymru.
- Tai Hanesyddol, y mae ei aelodau'n rheoli 25 o dai hanesyddol preifat a 5 gardd hanesyddol yng Nghymru sydd ar agor i'r cyhoedd.
- Bwrdd Glandŵr Cymru–Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru, sy'n rheoli rhyw 61 filltir o gamlesi a dyfrffyrdd hanesyddol a'u tir ac adeiladau cysylltiedig.
- Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rheoli 19,676 hectar o goetir (bron 6 y cant o arwynebedd tir Cymru) y mae 48,000 hectar ohono wedi'u dosbarthu'n safleoedd coetir hynafol, y ceir henebion cofrestredig ac adeiladweithiau rhestredig mewn llawer ohonynt.
- Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n chwarae rhan allweddol mewn rheoli'r amgylchedd adeiledig ac asedau archaeolegol, gan gynnwys rheoli datblygiadau, caniatâd adeilad rhestredig, dynodi ardaloedd cadwraeth, rhestri o asedau treftadaeth lleol, gwarchod adeiladau mewn perygl, cynnal prosiectau archaeolegol, ac ymgysylltu cymunedol. Maen nhw hefyd yn berchen ar safleoedd hanesyddol, o neuaddau, llyfrgelloedd, ysgolion a chanolfannau cymuned i dai hanesyddol, henebion a gerddi.
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n curaduro Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef casgliad o ryw ddwy filiwn o ffotograffau a miloedd lawer o luniadau, arolygon, adroddiadau a mapiau a ddefnyddir ar gyfer ymchwil, dysgu a gofalu am yr amgylchedd hanesyddol.
- Amgueddfa Cymru, sy'n rheoli saith amgueddfa yng Nghymru (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre ger Llandysul, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe). Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn gyfrifol am Ganolfan Casgliadau Cenedlaethol ger Caerdydd. Bydd yr amgueddfeydd hyn yn casglu ac yn dehongli deunyddiau'n ymwneud â threftadaeth, celf, archaeoleg, hanes, gwyddoniaeth a diwydiant Cymru, yn hwyluso mwynhad y cyhoedd o dreftadaeth, ac yn cyflwyno treftadaeth fel adnodd dysgu a hyfforddi.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, yw llyfrgell adnau cyfreithiol genedlaethol Cymru. Bydd yn casglu ac yn diogelu deunyddiau'n ymwneud â Chymru a bywyd Cymreig a hi yw un o'r llyfrgelloedd ymchwil mwyaf yn y DU.
- Rhydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri grantiau i brosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol Cymru. Pwysleisir treftadaeth sydd mewn perygl, cadwraeth a hyfforddiant.

- Pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru sydd gyda'i gilydd yn darparu gwasanaethau archaeolegol, cynllunio a rheoli treftadaeth ar gyfer Cymru gyfan. Mae eu gwaith yn cynnwys rhoi cyngor archaeolegol i awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a pherchenogion safleoedd, a rhoi cynlluniau fel briffiau gwyllo a chloddiau ar waith er mwyn lleihau effeithiau negyddol datblygiadau ar olion archaeolegol.

Bydd llawer o gyrff eraill yn chwarae rhan bwysig yn y sector, gan gynnwys elusennau fel y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, Ymddiriedolaeth Landmark, Cyfeillion Eglwysi Di-gyfaill, Addoldai Cymru a'r gwahanol enwadau crefyddol yng Nghymru sy'n cynnal eglwysi, capeli ac addoldai hanesyddol ein gwlad. Mae mwy na 700 o gyrff hanes a threftadaeth gwirfoddol yng Nghymru ac mae mwy na 40,000 o bobl neu sefydliadau'n berchen ar adeiladau, henebion a thirweddau hanesyddol, yn byw ynddynt neu'n gofalu amdanynt.

Abaty Glyn y Groes, a sefydlwyd gan y Tywysog Madog ap Gruffydd yn 1201, yw un o atyniadau mwyaf poblogaidd Cadw heddiw.



Darparu cyflogaeth yng Nghymru

Mae'r sector amgylchedd hanesyddol yn cyflogi mwy na 3,500 o bobl yng Nghymru yn uniongyrchol ac yn darparu mwy na 400 o swyddi tymhorol. Cyflogir o leiaf 10,000 o bobl eraill yn y sector twristiaeth treftadaeth.¹ Yn ogystal, mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn amcangyfrif bod y 112,000 o weithwyr adeiladu a gyflogir yng Nghymru yn treulio 43 y cant o'u hamser yn diogelu, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau traddodiadol.² Tybir felly fod y sector amgylchedd hanesyddol, twristiaeth treftadaeth ac adeiladu treftadaeth yn cynnal 40,000 o swyddi'n uniongyrchol, bron 3 y cant o bawb a gyflogir yng Nghymru.^{3,4}

Mae'r sector treftadaeth yn cyflogi bron

3,500

o bobl yng Nghymru ac yn darparu mwy na 400 o swyddi tymhorol.

Cyflogir o leiaf

10,000

o bobl mewn twristiaeth treftadaeth.



Hefyd, bydd gweithwyr adeiladu yn

treulio **43%**

o'u hamser yn diogelu, atgyweirio a chynnal adeiladau a godwyd cyn 1919.

Gyda'i gilydd, mae'r sector amgylchedd hanesyddol, twristiaeth treftadaeth ac adeiladu treftadaeth yn cynnal

40,670 o swyddi,

2.9% o bawb a gyflogir yng Nghymru.

Yn ogystal, bydd y sector yn ymgymryd â gweithgareddau o dan y fantell Cyfuno (Fusion), sydd â'r nod o hybu sgiliau, dyheadau a rhagolygon gwaith mewn ardaloedd difreintiedig neu ardaloedd dan anfantais economaidd. Er enghraifft, mae'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol (wedi'i hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'i chydlynu gan y rhwydwaith Sgiliau Creadigol a Diwylliannol) wedi darparu 33 o leoliadau profiad gwaith i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu

gyflogaeth i'w galluogi i feithrin sgiliau gweithle drwy dreulio tri i chwe mis gyda'r Comisiwn Brenhinol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, ac Amgueddfa Ceredigion.



Gwobrau Angel Treftadaeth Cymru: Crefftwr neu Brentis Gorau ar Brosiect Achub neu Atgyweirio Treftadaeth

Mae Gwobrau Angel Treftadaeth Cymru yn dathlu ymdrechion pobl sy'n gwneud gwahaniaeth i dreftadaeth yng Nghymru mewn gwahanol ffyrdd: drwy godi arian ac adfer adeiladau hanesyddol, drwy'r sgiliau adeiladu traddodiadol a ddefnyddiant mewn prosiectau, drwy hyfforddi ac ysbrydoli pobl eraill, neu drwy roi bywyd newydd i leoedd hanesyddol. Ariennir y Gwobrau gan Sefydliad Andrew Lloyd Webber ac adlewyrchant angerdd personol Andrew am adeiladau hanesyddol a'i edmygedd o'r rheiny sy'n eu hachub a'u hadfer.

Enillwyr y categori 'Crefftwr neu Brentis Gorau ar Brosiect Achub neu Atgyweirio Treftadaeth' oedd Matthew Roberts a Brett Burnell, prentisiaid yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. Fel rhan o ailddatblygu Sain Ffagan, Matt a Brett oedd yn bennaf cyfrifol am ail-greu neuadd fawr Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr), Tywysog Gwynedd, gan seilio eu gwaith ar gofnodion ysgrifenedig ac olion ei balas yn Llys Rhosyr, Môn. Bydd grwpiau ysgol yn gallu cysgu dros nos yn y neuadd a adeiladwyd ganddynt. Mae Matt a Brett wedi graddio gydag NVQ mewn gwaith saer maen erbyn hyn ac wedi ymuno â thîm parhaol yr amgueddfa o adeiladwyr cadwraeth. Eu her nesaf fydd ail-greu tafarndy sy'n dyddio'n ôl i 1853.



Chwith: Matthew Roberts a Brett Burnell, enillwyr y Wobr Angel Treftadaeth ar gyfer Crefftwr neu Brentis Gorau, yn dysgu sgiliau saer maen traddodiadol drwy adeiladu replica yn Amgueddfa Werin Cymru o neuadd a godwyd gan y Tywysog Llywelyn ap Iorwerth yn y drydedd ganrif ar ddeg.

Uchod: bydd plant ysgol yn gallu cysgu yn y neuadd orffenedig dros nos i gael amcan o sut beth oedd byw yn yr Oesoedd Canol.

Cefnogi twristiaeth yng Nghymru

Yn ôl y ffigurau diweddaraf, yr amgylchedd hanesyddol a ysgogodd 26.54m o'r 75m o ymwelwyr dydd, 8.1m o ymwelwyr dros nos a 784k o ymwelwyr tramor a ddaeth ar ymweliad â Chymru. Gwariodd ymwelwyr £1.72bn yn 2018.⁵

Mae mwy na hanner yr 20 safle mwyaf poblogaidd yng Nghymru sy'n codi tâl mynediad yn atyniadau hanesyddol ac mae agor tai hanesyddol, gerddi, cestyll, abatai a henebion i'r cyhoedd yn gwneud cyfraniad allweddol i economi twristiaeth Cymru. Croesawodd yr 20 safle hyn yn unig fwy na 2m o ymwelwyr y llynedd, ac ymwelodd 5m o bobl ag amgueddfa ddi-dâl a 3.3m â thŷ neu ardd hanesyddol.⁶

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, ymwelodd

1,887,376

o bobl ag un o saith amgueddfa Amgueddfa Cymru.⁷

Yn yr un flwyddyn, ymwelodd

1,321,400

o bobl ag un o 28 safle wedi'i staffio Cadw, y flwyddyn orau erioed ar gyfer aelodaeth ac incwm.

Yr incwm oedd

£7.691m

cynnydd o 2.1 y cant ar incwm y flwyddyn gynt, sef £7.536m.




Castell Conwy, a godwyd ym 1283-7, oedd safle mwyaf poblogaidd Cadw yn 2018. Roedd Castell Caernarfon yn ail agos. Mae'r ddau'n rhan o'r Safle Treftadaeth Byd Cestyll a Muriau Tref.

Mae swyddi llawer o bobl yng Nghymru yn dibynnu'n anuniongyrchol ar y sector treftadaeth – er enghraifft, mewn gwestai, siopau, caffes a thai bwyta sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr. Mae astudiaeth o'r economi treftadaeth yng Ngwynedd yn dangos ei bod hi'n bosibl bod mwy na 8,000 o swyddi yn cael eu cynnal yn anuniongyrchol gan yr amgylchedd hanesyddol yn y rhanbarth hwnnw'n unig.⁸

Drwy gynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd arbennig i ddathlu themâu Croeso Cymru – Chwedlau yn 2017, Y Môr yn 2018, a Darganfod yn 2019 – mae cyrff treftadaeth yn arwain ymdrechion i ddenu mwy o ymwelwyr, eu hannog i ddod i Gymru ar adegau eraill o'r flwyddyn heblaw am y cyfnod brig Gorffennaf i Awst, i aros am fwy o amser, ac i wario mwy.

Mae Goleudy Porth-cawl, a adeiladwyd o haearn bwrw ym 1860 ac a ddefnyddir o hyd fel cymorth mordwyo, i'w weld ar glawr cyd-gyhoeddiad diweddaraf y Comisiwn Brenhinol, Cymru a'r Môr, sy'n dathlu 10,000 o flynyddoedd o'n hanes morwrol.



Bydd cyrff treftadaeth yn gwneud cyfraniad o bwys i'r calendr o ddigwyddiadau a gwyliau sy'n bywiogi'r flwyddyn i gymaint o Gymry. Cymerodd 218,000 o bobl ran ynddynt y llynedd – a rhaid cofio hefyd am y lluo o ymwelwyr â'r stondinau a digwyddiadau amgylchedd hanesyddol yn Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau a sioeau lleol ledled Cymru.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys teithiau, sgysiau, perfformiadau hanes byw ar safleoedd Cadw ac mewn amgueddfeydd, a digwyddiadau blynyddol fel yr Ŵyl Archaeoleg (mis Gorffennaf), gyda'i rhaglen amrywiol o ymweliadau, teithiau cerdded a sgysiau, sy'n cael ei threfnu gan Cadw, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, y Comisiwn Brenhinol, Amgueddfa Cymru, amgueddfeydd a llyfrgelloedd lleol, parciau cenedlaethol a gwledig, prifysgolion, cymdeithasau lleol ac archaeolegwyr cymunedol.

Yn ystod yr Ŵyl Drysau Agored ym mis Medi 2018, a drefnwyd gan Cadw, cynhaliwyd dim llai na 1,300 o wahanol ddigwyddiadau ar 287 o safleoedd hanesyddol yng Nghymru. Y llynedd, ymwelodd 62,600 o bobl â lleoedd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd fel rheol neu a oedd yn cynnig mynediad di-dâl am gyfnod, a bu 382 o wirfoddolwyr yn helpu ar y safleoedd hynny.

Cefnogi dysgu



Prosiect ystafell ddosbarth: gwneud tarian Rufeinig.

Rydym yn rym cryf ar gyfer dysgu yng Nghymru.

Trefnodd Cadw amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu arloesol ar gyfer mwy na

68,500

o bobl ifanc (cynnydd o 14 y cant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf), gan ddarparu deunyddiau i alluogi ysgolion i wneud ymweliadau am ddim a hwyluso ymweliadau'n ymwneud yn benodol â'r cwricwlwm.

Cefnogodd Amgueddfa Cymru

208,388

o ddysgwyr ffurfiol ar draws y cyfnodau allweddol ac mae wedi datblygu ymgysylltu dwysach gydag ysgolion mewn ardaloedd Cyfuno (Fusion).

Bydd llawer o sefydliadau'r GAH yn cynnig profiadau dysgu wedi'u teilwra o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Safon Uwch a safon Bagloriaeth Cymru. Caiff rhaglenni eu teilwra hefyd i gefnogi cwricwlwm newydd Cymru.

Mae ymchwil a wnaed gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol (elusen sydd wedi ymroi i godi cyrhaeddiad addysgol disgyblion dan anfantais) wedi dangos bod ymweld â safleoedd treftadaeth yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgwyr am gost isel – a bod hyn o gymorth i feithrin llythrennedd a rhifedd yn ogystal â hyder a hunan-barch myfyrwyr.

Mae ymdrin ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i bob rhan o'r sector treftadaeth. Mae pob safle Cadw ac amgueddfa yng Nghymru yn cynnig mynediad am ddim i grwpiau ysgol, coleg a phrifysgol ar deithiau hunan-arwain ac yn darparu digwyddiadau dysgu wedi'u hwyluso am dâl bach. Hefyd, mae Grantiau Amddifadedd Disgyblion, sy'n helpu ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig i dalu am ymweliadau dysgu, wedi arwain at nifer sylweddol o ymweliadau (tua 43 y cant o holl ymweliadau ysgol Cadw) gan ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Prosiect Storiol ym Mangor

Cafodd casgliadau amgueddfa Prifysgol Bangor, a sefydlwyd ym 1884, eu symud i'r Hen Ganondy hanesyddol ym 1973 a'u cyfuno ag oriel gelf y dref, gan greu Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd. Daeth Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am redeg yr adeilad ym 1991 ac, yn 2014, penderfynwyd symud y casgliad eto, y tro hwn i Blas yr Esgob yng nghanol Bangor, a ailagorodd ym mis Ionawr 2016 o dan yr enw Storiol (o'r Gymraeg 'stori' i ddynodi hanes a threftadaeth ac 'oriol' i ddynodi celf).

Derbyniodd y prosiect gymorth ariannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a thynnodd y gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect sylw at y cyflawniadau a ganlyn:

- Gwella treftadaeth adeiledig Bangor drwy adfer adeilad hanesyddol o bwys
- Gwella mynediad corfforol, digidol a deallusol i'r casgliadau sylweddol drwy eu hail-arddangos a datblygu themâu a storïau perthnasol o'u cwmpas
- Cael grwpiau cymunedol ac unigolion i gymryd rhan mewn dehongli'r casgliadau
- Datblygu rhwydwaith cynaliadwy o wirfoddolwyr wedi'i seilio ar gymdeithas Cyfeillion sydd wedi'i hailfywiogi (y targed oedd 97 o wirfoddolwyr ond mae 139 wedi'u recriwtio sy'n darparu mwy na 5,500 awr o amser bob blwyddyn (sy'n werth £39,6000 ar sail y lleiafswm cyflog)). Mae cyfraniad y gwirfoddolwyr yn cynnwys helpu wrth y ddesg a chyda theithiau ac arddangosfeydd, cofnodi treftadaeth leol, catalogio casgliadau fel y rheiny ym Mhrifysgol Bangor, a dyletswyddau gweinyddol
- Mwy o ymwelwyr: cyn symud i Storiol byddai'r casgliadau'n denu 14,000 o ymwelwyr y flwyddyn: gosodwyd targed newydd o 25,000 ar gyfer yr amgueddfa newydd, a chofnodwyd 82,812 o bobl yn y flwyddyn ariannol 2016-2017, cynnydd o 592 y cant ers 2014
- Amcangyfrifwyd bod yr ymwelwyr hyn yn gwario £4.74 miliwn y flwyddyn (£58 am bob person ar gyfartaledd)
- I ychwanegu at yr incwm refeniw o Gyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor, fe agorwyd siop sy'n gwerthu eitemau celf a chrefft a nwyddau eraill a rhoddwyd lle ar rent ar gyfer caffi
- Crëwyd pedair swydd amser-llawn, a chyflogwyd nifer o weithwyr adeiladu i adfer Plas yr Esgob. Rhedir y caffi gan berson lleol, sy'n cyflogi pobl lleol ac yn cael cyflenwadau gan chwe busnes lleol. Bydd y siop yn archebu stoc yn rheolaidd gan artistiaid a chrefftwyr lleol yn ogystal â 49 o fusnesau sy'n cyflenwi cardiau, darnau ceramig, gemwaith ac eitemau eraill.

Mae'r prosiect yn dangos bod nifer o wahanol fuddion yn deillio o fuddsoddi'n ddoeth mewn treftadaeth, o gynyddu nifer yr ymwelwyr ac ymwneud pobl â'u treftadaeth drwy weithgareddau cymunedol a gwirfoddol i hybu'r economi drwy gynyddu gwariant gan ymwelwyr a defnyddio contractwyr a chyflenwyr lleol.



Dysgu am ddiwydiant tecstilau Cymru yn amgueddfa ac oriel gelf Storiol, Bangor.

Cefnogi cynllunio

Darparwn y wybodaeth a chynghor arbenigol y mae eu hangen ar gynllunwyr a datblygwyr fel y gallant weithredu cyfundrefn gynllunio effeithiol – un sy'n darparu'r adeiladau ac isadeiledd sydd eu hangen ar gymdeithas i ffynnu ond sydd hefyd yn diogelu'r dreftadaeth.

Drwy eu hymwneud â'r gyfundrefn gynllunio, mae aelodau'r GAH yn darparu gwasanaeth pwysig ar gyfer pobl Cymru, gan weithredu fel hyrwyddwyr cadwraeth adeiladol, hynny yw, sicrhau bod adeiladau a henebion yn parhau i chwarae rôl economaidd ddefnyddiol yn hytrach na chael eu gweld yn rhwystyr i ddatblygiad. Gellir cael amcan o faint y gwaith hwn drwy astudio ffigurau gwaith achos Cadw ar gyfer 2018–19.

- Ymgynghoriadau cynllunio: 1,104
- Ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig: 517
- Ymgynghoriadau'n ymwneud â chyn-geisiadau cynllunio statudol: 260
- Cyn-geisiadau cynllunio anstatudol: 59
- Ceisiadau caniatâd heneb gofrestredig: 107
- Ymgynghoriadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru: 119
- Asesiadau Effaith Amgylcheddol: 58
- Ymgynghoriadau'n ymwneud â Gwasanaethau ac Isadeiledd: 103
- Ceisiadau galw-i-mewn yn ymwneud â materion cynllunio: 5.

Mentrau adfywio a arweinir gan gyrff treftadaeth

Bydd Cadw a'i bartneriaid yn y GAU – yn enwedig Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL/HLF) a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (CTB/AHF) – yn cynnig grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, gan ganolbwyntio ar brosiectau sy'n dod â manteision cymdeithasol, megis cyfleoedd hyfforddi neu waith, yn ogystal â chyfrannu at adfywio adeiladau mewn cyflwr gwael mewn ardaloedd difreintiedig. Er enghraifft, bydd Cadw yn defnyddio'r grantiau y mae'n eu rhoi a'i gontractau ar gyfer gwaith ar ei safleoedd ei hun fel ffordd o greu cyfleoedd hyfforddi a mynediad – yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, roedd bwrsariau ar gael ar gyfer chwe gweithiwr dan hyfforddiant y cyfrannodd pob un ohonynt at waith cadwraeth ar y safle. Mae ardaloedd difreintiedig fel Merthyr Tudful, Caergybi a Blaenafon wedi gallu manteisio ar y cynnydd mewn cynlluniau trefol ac ar gyllid ar gyfer prosiectau sydd o fudd i'r gymuned yn ogystal â chadwraeth.

Yn ystod 2018–19:

Cynigiodd Cadw

£677,000

mewn grantiau grants

Buddsoddodd Cronfa
Dreftadaeth y Loteri (Cronfa
Dreftadaeth y Loteri
Genedlaethol bellach)

£2.6m

mewn prosiectau a oedd
o fudd i gymunedau, gan
hybu treftadaeth naturiol,
ddiwydiannol, arforol a
chwaraeon Cymru

Rhoddodd y Gronfa Treftadaeth
Bensaernïol grantiau gwerth

£32,000

i chwe phrosiect yng Nghymru
a

£216,000

mewn benthyciadau i
hwyluso atgyweirio adeiladau
hanesyddol mewn perygl a'u
hailddefnyddio'n gynaliadwy

Gellir defnyddio grantiau gan y cyrff hyn i ddenu cyllid ychwanegol sylweddol gan y sectorau preifat a chyhoeddus. Fel rheol, bydd pob £1,000 a gynigir mewn grantiau yn cynhyrchu £7,000 o gyllid ychwanegol.

Neuadd y Farchnad Caergybi

Adeilad rhestredig Gradd II yw Neuadd y Farchnad Caergybi. Hwn oedd adeilad cyhoeddus cyntaf y dref a chafodd ei adeiladu gan yr Anrh. W O Stanley ym 1855. Fe'i codwyd ar yr un adeg â'r cynnydd mawr mewn poblogaeth a thai yng Nghaergybi o'r 1840au yn sgil dyfodiad y rheilffordd a roddodd hwb i bwysigrwydd cynyddol y dref fel porthladd ar gyfer masnach rhwng Lloegr ac Iwerddon. Yn ogystal â bod yn ganolbwynt adwerthu Caergybi, roedd Neuadd y Farchnad yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau cymunedol o'r cychwyn cyntaf: roedd yn gartref i'r Gyfnewidfa Yd, ystafell gynnull, a llyfrgell/ystafell ddarllen Sefydliad Peirianyddion Caergybi. Cynhelid sesiynau'r Llys Sirol yn y Neuadd bob dau fis.

O ganlyniad i newidiadau mewn arferion siopa fe gaeodd Neuadd y Farchnad ym 1999, ac yn ystod y 13 blynedd nesaf dechreuodd yr adeilad gwag fynd â'i ben iddo, gan ddioddef o bydredd sych a oedd yn fygythiad i gadernid ei adeiladwaith. Yn 2013 penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn wneud rhywbeth, a chodwyd £4.2m, yn cynnwys cyfraniad hael o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i adfer yr adeilad a'i droi'n gartref newydd i Lyfrgell Caergybi a chasgliadau hanes lleol Ynys Môn. Ceir yma hefyd siop goffi, arddangosfeydd sy'n dehongli hanes Caergybi, lleoedd ar gyfer dysgu, hyfforddi a gweithgareddau cymunedol, a swyddfeydd i fusnesau bach.

Bu cyfathrebu yn elfen allweddol: 'Mae Neuadd y Farchnad yn bwysig iawn yn lleol. Mae gan bawb atgofion am yr adeilad neu stori i'w hadrodd amdano', meddai Nathan Blanchard, Rheolwr y Prosiect. Dyna pam yr oedd angen rhoi gwybod i holl drigolion y dref am hynt y prosiect. Drwy gyfrwng dyddiau agored, ymweliadau grŵp a phrosiectau ysgol, mae pobl leol wedi cael cyfleoedd i weld y gwaith sy'n cael ei wneud ac ailgysylltu ag adeilad sydd wedi bod ar gau iddynt am ugain mlynedd.

Cyn bo hir, fe fydd Neuadd y Dref ar ei wedd newydd yn dod yn ganolbwynt naturiol i'r gymuned unwaith eto. Bydd cynllun uchelgeisiol o weithgareddau'n denu rhyw 95,000 o ymwelwyr y flwyddyn i'r adeilad newydd, gan gynyddu nifer y bobl sy'n dod i ganol y dref a helpu busnesau lleol. Mae gweithio gydag entrepreneuriaid lleol yn agwedd allweddol ar y rhaglen adfywio. Meddai Nathan: 'Os ydyn nhw'n credu yn y prosiect, nhw yw eich cefnogwyr gorau. Fe fyddan nhw'n siarad yn gadarnhaol am adfywiad canol tref Caergybi ac yn helpu i wrthbrofi unrhyw syniad bod y dref yn "methu". Mae hi'n newid, nid methu, a'n tasg ni yw cynnal perthynas dda â busnesau lleol ac, er enghraifft, helpu i ddod o hyd i adeiladau addas i'r rheiny sydd eisiau ehangu.'

Mae'r prosiect yn dangos sut mae cadwraeth yn gallu cyfrannu at gyflawni prosiect y mae ganddo amcanion lles pendant, ac mae'n tynnu sylw at yr ystod gymhleth o sgiliau sy'n gysylltiedig ag achub adeilad poblogaidd i roi iddo ddefnydd cynaliadwy newydd yng nghanol yr economi lleol. Mae sgiliau pensaernïol, cadwraethol, ariannol, a rheoli prosiect proffesiynol yn cael eu cymryd yn ganiataol, ond mae'r egni ac ymrwymiad sy'n meithrin cefnogaeth y gymuned a hyder busnes yr un mor bwysig.



Neuadd y Farchnad hanesyddol Caergybi yn cael ei throï'n llyfrgell, canolfan gymuned a safle busnesau bach newydd.

Treftadaeth mewn perygl


Asedau economaidd wedi'u gwastraffu yw adeiladau hanesyddol a esgeulusir ac maen nhw'n amharu ar yr amgylchedd ac ar y cymunedau sy'n gorfod byw gydag adeiladau peryglus sydd wedi'u fandaleiddio a'u byrddio. Bydd Cadw yn cynnal arolwg cenedlaethol bob pum mlynedd sy'n darparu trosolwg o'r holl adeiladau rhestredig yng Nghymru ac yn ein galluogi i gadw llygad ar adeiladau sydd mewn perygl. Dengys yr arolwg mwyaf diweddar (2015) fod y sefyllfa ar gyfer adeiladau rhestredig yn gwella: mae nifer yr adeiladau sydd 'mewn perygl' neu mewn cyflwr 'bregus' wedi disgyn o 8.92 y cant o'r stoc o adeiladau rhestredig i 8.54 per cent.

Mae'r arolygon Henebion mewn Perygl cyfatebol yn dangos bod tua 15 y cant o'r henebion cofrestredig a arolygwyd y llynedd mewn perygl, a bod dau y cant o'r rheiny mewn perygl mawr neu ddybryd.⁹

Astudiaeth achos: Cadwraeth adeiladol ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Adeilad o bwys pensaernïol a hanesyddol yw 2-4 Queen Street ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae ganddo ffyrnt siop o oes Fictoria a ychwanegwyd at nifer o fythynnod carreg ag adeiladau allan yn y cefn o'r cofnod Sioraidd. Cafodd yr adeiladweithiau 'ar oled' hyn eu difrodi gan dân peth amser yn ôl ac roeddynt mewn cyflwr gwael. Fel rhan o gynllun Menter Treftadaeth Trefwedd ar gyfer Queen Street, a chyda chymorth grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, mae'r adeiladau yn y cefn wedi'u hailadeiladu. Mae'r prosiect wedi cael effaith rymus ar sut mae'r rhan hon o'r dref yn edrych ac mae lle ychwanegol wedi'i greu ar gyfer busnes, sy'n gartref bellach i fwyty'r Old Cottage.

Ar raddfa grandiach, cafodd Ty[^] Carnegie ei godi ym 1907 fel Llyfrgell Gyhoeddus, gyda grant o £2,000 gan Ymddiriedolaeth Carnegie, ar dir yn Wyndham Street a roddwyd gan Iarll Dunraven. Cafodd ei adeiladu o garreg Caerfaddon a brics coch yn arddull Darddullaidd y Dadeni a pharhaodd yn llyfrgell hyd 2013. Cafodd ei ddynodi'n adeilad rhestredig Gradd II ym 1992. Pan ail-leolwyd y llyfrgell, gallai'r adeilad 106 oed fod wedi dioddef yr un dynged â llawer o adeiladau cyhoeddus diangen eraill, ond roedd y bobl leol yn benderfynol na fyddai hyn yn digwydd. Yn lle hynny mae'n parhau'n ganolbwynt i fywyd y dref ar ôl i'r tu mewn gael ei ailwampio'n gartref i Siambr Cyngor Tref Pen-y-bont, swyddfa staff ac ystafell gyfarfod ar y llawr uchaf, a Chanolfan y Celfyddydau ar y llawr gwaelod. Mae'r adeilad poblogaidd hwn bellach yn barod am 100 mlynedd arall o wasanaeth cyhoeddus.



Astudiaeth achos: Adfywiad ym Mhorth-cawl

Cafodd Adeilad Jennings ei godi ym 1832 fel storfa ar gyfer haearn a nwyddau cysylltiedig a oedd yn aros i gael eu cludo o ddociâu Porth-cawl. Mae'r enw Jennings yn dyddio'n ôl i 1911 pan gafodd ei ddefnyddio gan y mewnfôrwyd coed, Jennings and Co. Yn fwy diweddar, mae'r adeilad wedi bod yn sinema, awyrendy, canolfan Achub Awyr a Môr y Llu Awyr ac, yn y 1990au, ar ôl cyfnod hir o segurdod, yn barc sgelfrio dan do.

Yna aeth â'i ben iddo a bu pwysau i'w ddymchwel ac ailddatblygu'r safle. Sut bynnag, ymgyrchodd Ymddiriedolaeth Ddinesig Porth-cawl dros gadw ac aildefnyddio'r ased treftadaeth pwysig hwn, y rhoddasid statws adeilad rhestredig Gradd II iddo ym 1991, sydd mewn lleoliad amlwg ar lan y môr ac yn dwyn i gof hanes morwrol cyfoethog y dref. Wrth chwilio am ffyrdd o sicrhau dyfodol economaidd i'r adeilad, bu tîm cadwraeth Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Pen-y-bont yn gweithio gyda datblygwyr ar gynllun i greu unedau masnachol ar y llawr gwaelod ac unedau byw-gweithio uwchben. Roeddynt yn ffyddiog y byddai buddsoddi yn yr adeilad yn ysgogi adfywio ardaloedd glân môr a marina ehangach Porth-cawl.

Roedd meithrin perthynas waith agos rhwng y datblygwyr a'r Cyngor yn hollbwysig o ran cynllunio'r prosiect ac er mwyn sicrhau ei fod yn dderbyniol i bawb a oedd ynghlwm wrtho, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, trigolion Porth-cawl a grwpiau cymunedol lleol, y ceisiwyd eu barn a'u cefnogaeth drwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus a threfnu ymweliadau â'r adeilad.

Rhoddwyd bywyd newydd i Adeilad Jennings, y cwblhawyd y gwaith arno ym mis Medi 2017, ac mae wedi ychwanegu'n sylweddol at ddiddordeb hanesyddol y rhan hon o Borth-cawl. Roedd y gwaith yn rhan o'r cynllun Menter Treftadaeth Tirwedd ar gyfer Porth-cawl, a dderbyniodd gymorth grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont. Yn ystod y prosiect darparwyd gwaith amser-llawn ar gyfer 50 o weithwyr lleol, yr oedd llawer ohonynt yn hyddysg mewn technegau adeiladu traddodiadol. Yn ogystal, mae gofynion staffio gweithredol hirdymor y cynllun wedi creu 80 swydd barhaol.

Yn yr agoriad swyddogol ar 1 Medi 2017 fe ddywedodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru a'r Aelod Cynulliad dros Ben-y-bont: 'Hanner can mlynedd yn ôl, byddai ailddatblygu adeilad fel hwn wedi golygu ei fwrw i lawr, felly mae'n wych gweld prosiect sydd wedi dilyn llwybr mor wahanol ac wedi cael cymaint o lwyddiant.'

Mae Adeilad Jennings (1832), a adeiladwyd fel warws, bellach yn ganolfan busnesau bach lewyrchus ac yn gaffe poblogaidd.



Astudiaeth achos: Prosiectau cadwraethol yng Nghaerffili

'I sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer adeiladau hanesyddol a'r gymuned', meddai Patricia Martin, Prif Swyddog Cadwraeth a Dylunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, 'byddaf yn gweithio'n agos â chydweithwyr o lawer o wahanol sectorau a chyrff. Mae'r agwedd gydweithredol hon wedi arwain at sawl llwyddiant pwysig. Mae Sefydliad y Glowyr, High Street, Y Coed-duon, adeilad rhestredig gradd II* hardd a agorodd ym 1927, wedi'i ailwampio'n sensitif ac mae estyniad wedi'i godi yn y cefn i ddarparu cyfleusterau perfformio newydd.'

Mae Neuadd Goffa (y 'Memo') a Sefydliad y Gweithwyr Glofeydd Celynnen, High Street, Trecelyn, ar agor i'r cyhoedd unwaith eto fel canolfan celfyddydau ac adloniant lewyrchus sy'n gwasanaethu cymunedau cymoedd de-ddwyrain Cymru. Mae'n gartref i lyfrgell gyhoeddus, theatr, ystafelloedd cynadledda a neuadd ddawns.

Mae Capel y Bedyddwyr Hanbury Road, Bargod, adeilad rhestredig Gradd II, wedi'i droi'n llyfrgell gyhoeddus newydd, gyda Gwasanaethau Gofal Cwsmeriaid Un Stop ac ystafell ymchwil hanes lleol, ac mae'n parhau'n addoldy hefyd. Mae defnydd addysgol llawn, fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, yn cael ei wneud eto o Ysgol Sant Ilan, Pontywindy Road, Caerffili, a fu'n wag am fwy na saith mlynedd, ac mae bellach yn sefyll yn falch o flaen safle ysgol fawr a elwir yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Campws Y Gwyndy.

Mae Sefydliad y Glowyr yn y Coed-duon bellach yn ganolfan celfyddydau ac adloniant lewyrchus yng nghanol y gymuned.



Gwaith gwirfoddol

Gyda'i gilydd, mae gan sefydliadau'r GAU fwy na 437,000 o aelodau. Hefyd, mae gan Gymru fwy na 700 o gymdeithasau archaeoleg, dinesig a chadwraeth llewyrchus a rhyw 102,000 o aelodau yn perthyn iddynt.¹⁰ Hyd yn oed os yw rhai pobl yn aelodau o fwy nag un sefydliad, mae'r ffigurau hyn yn dangos yn glir bod pobl Cymru yn wirioneddol falch o'u treftadaeth.

Bydd gwirfoddolwyr yn chwarae rhan ganolog a hanfodol yn y sector treftadaeth: heb y 350,000 o oriau o amser y mae rhyw 10,000 o wirfoddolwyr yn eu rhoi bob blwyddyn i sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, byddai'r sector yn cael trafferth i gyflawni ei amcanion, yn enwedig gan fod gwirfoddolwyr yn awr yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o dasgau mewn meysydd fel cadwraeth, cynnal a chadw, gwella profiad yr ymwelydd, cofnodi a gwaith catalogio, ac yn helpu i hwyluso digwyddiadau arbennig.

Mae astudiaethau wedi dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau treftadaeth yn llesol i'r gwirfoddolwyr eu hunain hefyd, o ran datblygiad personol, ymgysylltu cymdeithasol, lles corfforol a meddyliol, a meithrin sgiliau byw. Mae'r buddion hyn yn arbennig o werthfawr i'r rheiny sy'n ceisio sgiliau trosglwyddadwy i gryfhau eu CVs a gwella eu rhagolygon gwaith. Dyna pam mae'r sector yn gweithio'n galed i gynyddu nifer y cyfranogwyr o ardaloedd difreintiedig Cymru: er enghraifft, mae tua 23 y cant o wirfoddolwyr Cadw yn byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Rhai sefydliadau treftadaeth sy'n rhedeg cynlluniau gwirfoddol ffyniannus yng Nghymru yw:

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y mae mwy na 4,000 o wirfoddolwyr yn gweithio ar ei safleoedd, gan roi mwy na 274,000 o oriau o'u hamser;
- Glandŵr Cymru, y mae ganddo gorff sylweddol o wirfoddolwyr a wnaeth bron 19,000 o oriau o waith gwirfoddol y llynedd mewn sawl maes, gan gynnwys arolygu a chofnodi, cadwraeth a chynnal, addysg, a gwella profiad yr ymwelydd. Ar ben hyn, mae'r cynllun 'mabwysiadu camlas' newydd yn galluogi sefydliadau fel grwpiau Sgowtiaid a Geids, cynghorau plwyf a chymdeithasau preswylwyr i weithio gyda staff Glandŵr Cymru i gynnal digwyddiadau a theithiau cerdded tywys, gwneud gwelliannau i fynediad a chyfleusterau, cofnodi a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, a hyrwyddo'r ddyfrffordd;
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: yn ogystal â'r gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith catalogio yn yr archif, mae wedi torri tir newydd drwy gynnal nifer o brosiectau cymorth torfol sy'n caniatáu i bobl gyfrannu o bell i brosiectau ymchwil. Bydd mwy na 400 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn rheolaidd ym mhrosiect Cymru1900Wales y Comisiwn sydd wedi cofnodi rhyw 300,000 o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru, ynghyd ag amrywiadau modern neu ffurfiau eraill, gan greu corff pwysig o wybodaeth am y dirwedd a hanes enwau lleoedd;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y bydd mwy na 600 o bobl yn cymryd rhan yn ei rhaglen wirfoddoli arobryn, gan weithio ar safle'r Llyfrgell ac o bell. Mae'r gwirfoddolwyr yn hwyluso mynediad i adeilad y Llyfrgell a'i chasgliadau. Mae gweithgareddau diweddar yn cynnwys helpu i greu ffilmiau byr i ysgogi atgofion, a chofnodi erthyglau ar effaith Brexit ar Gymru;



- Amgueddfa Cymru, y dyfarnwyd y Safon Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli iddi eleni am gefnogi 1,100 o wirfoddolwyr, a roddodd fwy na 28,500 o oriau o'u hamser. Bydd y gwirfoddolwyr yn ymgymryd â phob agwedd ar waith yr Amgueddfa. Roedd y pwyslais yn 2018-19 ar gefnogi pobl ifanc ac roedd 28 y cant o'r gwirfoddolwyr o dan 25 oed.

Gwirfoddolwyr yn glanhau darganfyddiadau o gloddiadau 2019 yng Nghastell y Waun a gynhaliwyd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys gyda chymorth ariannol Cadw ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn. Dyfrdwy.

Archaeoleg

Bydd Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn gweithio gyda chynllunwyr a datblygwyr ar brosiectau archaeolegol sy'n werth mwy na £10m y flwyddyn; yn darparu gwasanaethau curadurol Cymru-gyfan ar gyfer archaeoleg, gan gynnwys cyngor cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol a pharciau cenedlaethol; ac yn gweithio gyda chymunedau ledled Cymru ar sail ranbarthol.

- Ceisiadau cynllunio a gafodd eu prosesu a'u hasesu: 28,846
- Nifer yr argymhellion cynllunio cyn-benderfynu (gwerthuso, arolygon geoffisegol, asesiadau desg): 138
- Nifer yr amodau cynllunio amgylchedd hanesyddol (cloddiadau, briffiau gwylio, cofnodi adeiladau): 709.¹¹

Yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf mae pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru wedi asesu gwahanol ddosbarthiadau o asedau amgylchedd hanesyddol – fel bryngaerau, safleoedd angladdol a defodol cynhanesyddol a ffynhonnau sanctaidd – ac wedi argymhell rhoi amddiffyniad statudol i'r rhai gorau. Mae hyn wedi arwain at restru neu gofrestru niferoedd mawr o safleoedd, henebion ac adeiladau. Mae safleoedd milwrol yr ugeinfed ganrif a ffermydd hanesyddol yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.



Astudio effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol Cymru fel rhan o'r prosiect **CHERISH** a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd (chwith): cymryd samplau o bridd a thywod o glogwyni erydol (uchod): casglu creiddiau mawn o gorsydd hynafol; mae bryngaer Dinas Dinlle yn cael ei hastudio cyn iddi ddiflannu i'r môr.

30,000fed adeilad rhestredig Cymru



Daeth Eglwys Sant Marc yng Ngabalfa, Caerdydd yn 30,000fed adeilad rhestredig Cymru pan gafodd ei hychwanegu at y Gofrestr Adeiladau Rhestredig ym mis Mawrth 2019. Mae bellach yn elwa ar amddiffyniad statudol oherwydd ei phwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol eithriadol.

Cafodd ei hadeiladu ym 1968 yn unol â chynlluniau cwmni pensaernïol Seely & Paget. Pwrpas yr adeilad oedd darparu ar gyfer y ffurfiau newydd ar addoli a ddaeth yn boblogaidd ar ôl y rhyfel ac mae'n cynrychioli toriad bwriadol â'r gorffennol sy'n amlwg o'r cynllun pumonglog, y to wedi'i goroni â chopr; a'r fframwaith o bren laminedig a wnaed gan ddefnyddio adlyn arloesol a ddatblygwyd yn ystod y rhyfel ar gyfer adeiladu awyrennau a chychod. Yn y gwasanaeth cysegru ym 1968, disgrifiodd y ficer yr adeilad fel 'modern, ond nid modern hyll'. Ystyrir heddiw fod yr eglwys yn symbol o obaith ac optimistiaeth y blynyddoedd ar ôl y rhyfel.

Aelodau'r GAH

Mae'r sector amgylchedd hanesyddol yn cynnwys unrhyw un sy'n gofalu'n weithgar am amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys busnesau adeiladu a thwristiaeth, perchenogion, y sector gwirfoddol, sefydliadau sector cyhoeddus a dinasyddion brwd. Yn ogystal â gweithwyr proffesiynol a gyflogir fel penseiri, archaeolegwyr a rheolwyr treftadaeth, cyflogir pobl ym meysydd twristiaeth treftadaeth ac adeiladu. Bydd y sector gwirfoddol, ynghyd â'r 40,000 o bobl neu gyrff sy'n berchen ar asedau hanesyddol, yn byw ynddynt neu'n gofalu amdanynt, yn gwneud cyfraniad mawr i'r amgylchedd hanesyddol.

- Amgueddfa Cymru
- Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF)
- Bwrdd Gland w'r Cymru | Canal & River Trust Cadw: Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru
- Cyngor Archaeoleg Prydain (CBA) Y Gymdeithas Tai Hanesyddol a Thir a Busnes Gwledig
- Ymchwil Hanes Cymru
- Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (IHBC)
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF)
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru – National Library of Wales
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC/NRW)
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC/ RCAHMMW)
- Croeso Cymru: Adran Twristiaeth Llywodraeth Cymru Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru (YAC/WAT)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) Cyngor Celfyddydau Cymru (fel sylwedydd)

Cyfeiriadau

1. <https://gov.wales/arts-heritage-sites-libraries-and-museums-national-survey-wales-april-2017-march-2018>
2. A 'Material' Issue: Understanding and Responding to the Traditional Building Skills Challenge in Wales, Final report, February 2015: <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s500002487/HE%2036%20-%20Construction%20Industry%20Training%20Board.pdf>
3. 'Historic Wales Cadw Workstream Business Case for Change', 2017, section 2.5, page 25
4. Ystadegau Cymru – Ystadegau Economaidd Allweddol, Ionawr 2019
5. <https://gov.wales/wales-tourism-performance-january-september-2018-0>
6. Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth Llywodraeth Cymru (2013-2020) <https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=en>
7. <https://museum.wales/visitor-figures/april2018-march2019/>
8. An assessment of the current and potential economic impact of heritage, Rebanks 2015
9. 'Condition and Use Survey of Listed Buildings in Wales — 2015 Update', adroddiad Partneriaeth Handley i Cadw. <http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20161206conditionandusesurveyoflistedbuildings2015.pdf>
10. WCVA - Mapping Community Heritage Organisations in Wales, May 2014
11. Ffigurau a gymerwyd o adroddiadau blynyddol pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru

Lluniau:

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: clawr, 3, 18

© Hawlfraint y Goron: Cadw 5, 10, 19

© Amgueddfa Cymru: 6, 7

© Croeso Cymru 8

© Steve Carrington 9

© Storiell 11

© Nathan Blanchard 13

© Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 14, 15